Cynllun PROSOIL+ Project




# GWELLA PRIDD


Buom yn archwilio sut gallai porthiannau gyda gwahanol systemau gwreiddiau ddarparu dull mwy cynaliadwy o wella priddoedd mewn systemau glaswelltir.

## CYFANSODDIAD MWNOL

Mae gan ysgall y meirch (chicory), llyriad (plantain), meillion cochion a meillion gwynion oll systemau gwreiddio sy'n gallu cyrraedd gwahanol adnoddau maetholion yn y pridd.

Er enghraifft, mae cynnwys ïodin yn uwch yn y porthiannau hyn o'i gymharu â rhygwellt.





## MWYDOD

Mae mwydod yn gwella strwythur y pridd trwy dorri sylweddau organig i lawr a rhyddhau maetholion ar gyfer twf planhigion, ac felly mae ffigurau uwch yn fuddiol.

## YMDREIDDIAD DŴR

Mae cyfraddau ymdreiddiad dŵr yn ddangosydd da o strwythur pridd.

Roedd gan borthiannau eraill gyfraddau ymdreiddiad cyflymach o'i gymharu â rhygwellt, sy'n dangos sut gall gwahanol systemau gwreiddio helpu i wella pridd.




Ariennir y prosiect hwn drwy Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru – Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020 a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd.